



## Canllawiau i rieni ar bresenoldeb 2017-18

**Dylai rhieni ddilyn y drefn ganlynol os yw disgybl yn absennol am unrhyw reswm:**

- ffonio swyddfa'r ysgol cyn 8.30yb i egluro'r rheswm dros yr absenoldeb
- danfon llythyr o eglurhad neu nodyn yn y trefnydd personol ar y diwrnod mae y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol

**Nid yw'r canlynol yn rhesymau derbyniol i golli ysgol neu ran o ddiwrnod ysgol**

- apwyntiad deintydd neu feddyg (oni bai ei fod yn argyfwng neu'n rhan o driniaeth hirdymor)
- helpu gartref
- adloniant / siopa / gweithgaredd hamdden

### Canllawiau i rieni

**Er mwyn sicrhau eich bod yn ymateb i ofynion deddf gwlad ac yn sicrhau bod eich plentyn yn manteisio ar bob cyfle addysgiadol i gyrraedd ei lawn potensial:**

- dylid gwneud pob ymdrech i drefnu unrhyw apwyntiadau tu allan i oriau ysgol
- dylid gofyn am ganiatâd ymlaen llaw os yw'r rheswm am yr absenoldeb yn hysbys
- rhaid trefnu gwyliau teuluol y tu allan i ddiwrnodau ysgol gan bod absenoldeb o ddiwrnodau neu wythnosau yn cael effaith andwyol ar gynnydd disgybl.
- dylid gwneud penderfyniad os yw salwch eich plentyn yn ddigon difrifol i fod yn absennol o'r ysgol gan bod gwaith pwysig yn cael ei golli. Os yw absenoldeb oherwydd salwch yn digwydd dylid ceisio cyngor meddyg. Os yw absenoldeb yn digwydd oherwydd problem yn deillio o bryder ar ran eich plentyn ynglŷn â dod i'r ysgol, dylech gysylltu â'r ysgol yn syth er mwyn trafod y mater gyda'r Pennaeth Blwyddyn

Os bydd disgybl yn absennol

- heb esboniad
- heb esboniad sy'n dderbyniol i'r ysgol
- yn gyson neu absenoldeb cyfnod hir,

gallwch ddisgwyl llythyr swyddogol oddi wrth yr ysgol ac yna ymweliad oddi wrth y Swyddog Lles Addysg. Bydd y swyddog yn trafod sut y gellir osgoi absenoldebau dianghenraid.

Os nad yw'r sefyllfa yn gwella byddwn yn trefnu cyfarfod yn yr ysgol i drafod absenoldeb y disgybl a chytuno ar gynllun gweithredu